Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO676/EJ/EW

4 Gorffennaf 2019

Annwyl Mark

Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

Rwyf wedi ystyried Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) ac, yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwyf o'r farn na fyddai holl ddarpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae hyn oherwydd, yn fy marn i, mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol i fod o fewn cymhwysedd.

Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i mi benderfynu a fydd angen penderfyniad ariannol. Rwyf wedi nodi goblygiadau cost y Bil fel y'u nodir yn y Memorandwm Esboniadol ac rwyf wedi penderfynu gohirio gwneud penderfyniad ar y mater hwn nes bydd y Pwyllgor sy'n ystyried yr egwyddorion cyffredinol wedi cael cyfle i gymryd tystiolaeth am effaith debygol y Bil a'r costau sy'n gysylltiedig ag ef.

Byddaf yn ysgrifennu i roi gwybod i chi beth yw fy mhenderfyniad ynghylch penderfyniad ariannol cyn y ddadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403